



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

System feddal o optio allan o roi organau: Ailystyried safbwyntiau Nyrsys Arbenigol ac Arweinwyr Clinigol

Ymchwil crynodeb

Ymchwil gymdeithasol

Rhif y ddogfen: 33/2015

Mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno system feddal o optio allan o roi organau drwy Ddeddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013 a ddaw i rym ar 1 Rhagfyr 2015.

Fel rhan o'r broses o baratoi ar gyfer gweithredu'r Ddeddf, comisiynwyd Beaufort Research i gynnal yr ail don o blith tair ton o waith ymchwil ansoddol er mwyn asesu safbwyntiau Nyrsys Arbenigol (SNOD) ac Arweinwyr Clinigol (CLOD) ar gyfer rhoi organau, mewn perthynas â'r newid i system feddal o optio allan yng Nghymru.

Nodau'r gwaith ymchwil oedd diweddarau'r ddealltwriaeth o ran disgwyliaid, agweddau ac unrhyw bryderon a oedd gan nyrsys arbenigol ac arweinwyr clinigol o ran y broses o baratoi ar gyfer symud i'r system newydd. Mae'r adroddiad yn cyflwyno safbwyntiau personol a fynegwyd gan y nyrsys arbenigol a'r arweinwyr clinigol a gymerodd ran.

Roedd y gwaith ymchwil yn cynnwys 25 o gyfweiliadau manwl: 15 gyda nyrsys arbenigol a 10 gydag arweinwyr clinigol ledled Gogledd a De Cymru. Cynhaliwyd gwaith maes rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2015.

Arferion gwaith cyfredol ac ailystyried canfyddiadau 2013

Fel yn 2013, parhaodd nyrsys arbenigol mewn rhoi organau (SNOD) 'sefydledig' i gael effaith gadarnhaol ar y broses rhoi organau, yn ôl cyfranogwyr ym mhob rhan o'r sampl. Roedd yr enghreifftiau a nodwyd yn cynnwys meithrin cydberthnasau ar draws gofal critigol a'r adran achosion brys, addysgu staff a helpu i wella cyfraddau atgyfeirio.

Roedd nyrsys arbenigol mewn rhoi organau ac arweinwyr clinigol mewn rhoi organau (CLOD) yn dueddol o ystyried y gwnaed cynnydd o ran lleihau nifer yr achlysuron lle y gallai clinigwyr gael effaith andwyol anfwriadol ar y broses rhoi organau.

Fodd bynnag, roedd rhai nyrsys arbenigol o'r farn bod gwelliannau o ran arferion gwaith mewn perthynas â rhoi organau wedi 'sefydlogi'. Roedd yn her gyson gwneud cynnydd pellach o ran newid ymddygiad ac agweddau aelodau eraill o staff, clinigwyr yn bennaf.

Nododd yr holl nyrsys arbenigol a'r rhan fwyaf o arweinwyr clinigol yn y Gogledd a'r De broblemau roeddent yn eu cael o hyd lle roedd rhai clinigwyr yn effeithio ar y broses rhoi organau.

Roedd enghreifftiau yn cynnwys sefyllfaoedd lle roedd y clinigydd yn awyddus i gadw rheolaeth, gan siarad â'r teulu heb fod yng nghwmni nyrs arbenigol, codi'r mater o roi organau ar adeg amhriodol, atgyfeiriadau hwyr, a'r ffaith nad oedd gan y nyrsys arbenigol hygyrdd ym marn rhai clinigwyr.

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy

O ystyried y mynegwyd pryderon tebyg yn 2013, er bod rhai cyfranogwyr o'r farn nad oedd y problemau gyda chlinigwyr yn digwydd mor aml nawr, mae'r gwaith ymchwil yn tynnu sylw at yr angen parhaus i roi cymorth i nyrsys arbenigol yn y maes hwn. Dylai'r cymorth sicrhau bod nyrsys arbenigol yn meddu ar adnoddau priodol wrth iddynt ymdrechu i feithrin cydberthnasau â chlinigwyr (megis hyfforddiant cyfathrebu) a llywio'r nyrsys arbenigol wrth iddynt geisio annog clinigwyr i fabwysiadu arfer gorau.

Yn gyffredinol, roedd y cyfranogwyr o'r farn eu bod yn gallu cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau presennol yn effeithiol. Fodd bynnag, cyfeiriodd rhai yng Ngogledd Cymru at yr heriau presennol y credwyd eu bod yn deillio o'r ffaith eu bod yn cwmpasu rhanbarth mawr (sy'n cynnwys rhannau o Ogledd-orllewin Lloegr), tasgau gweinyddol a salwch ymhlith aelodau o staff. Noda'r gwaith ymchwil y gallai fod angen adolygu'r sefyllfa hon.

Effaith ganfyddedig deddfwriaeth y system feddal o optio allan ar arferion gwaith

Nid oedd y cyfranogwyr yn rhagweld y byddai unrhyw newidiadau sylweddol i'w harferion gwaith pan ddaw'r ddeddfwriaeth i rym. Yn gyffredinol, ni leisiwyd unrhyw

bryderon ganddynt am y newid i system feddal o optio allan o ran eu harferion gwaith.

Ar y cyfan, nid oedd y cyfeiriadau anaml a gafwyd yng ngwaith ymchwil 2013 am bryderon posibl ynghylch cynnydd o ran llwyth gwaith i'w gweld yn 2015.

Roedd nyrsys arbenigol ac arweinwyr clinigol yn disgwyl mân newidiadau i'r sgyrsiau gyda theuluoedd wrth ystyried y posibilrwydd o roi organau. Mae'r canfyddiad hwn yn adlewyrchu'r canlyniadau yn 2013. Roedd rhai o'r farn y gallai'r sgwrs ddod yn haws gan y byddai mwy o deuluoedd wedi trafod eu dymuniadau o ganlyniad i ymwybyddiaeth gynyddol y cyhoedd o'r ddeddfwriaeth newydd.

Roedd dechrau sôn am ganiatâd tybiedig yn faes allweddol lle y byddai angen canllawiau, ynghyd ag eglurder o ran sut i ymdrin â'r drafodaeth mewn achosion lle roedd y claf wedi optio allan. Yn 2013, roedd cyfranogwyr yn pryderu na fyddent hyd yn oed yn cael y cyfle i siarad â theuluoedd yr oedd eu perthynas wedi optio allan. Ni leisiwyd y pryder hwn yn 2015.

Disgwyliwyd i gyfrifoldebau addysgu'r cyfranogwyr gynyddu yn ystod y flwyddyn i ddod er mwyn helpu i sicrhau bod aelodau

eraill o staff ym maes gofal critigol a'r adran achosion brys yn ymwybodol o effaith ymarferol y ddeddfwriaeth. Ar y cyfan, nid oeddent yn pryderu am y dasg hon.

Nid oedd rhai yn rhagweld y byddai unrhyw newidiadau sylweddol o ran nifer y bobl sy'n rhoi organau, er eu bod yn gobeithio y byddai'n gwneud gwahaniaeth cadarnhaol. (Mynegwyd y farn hon yn fwy gan nyrsys arbenigol nag arweinwyr clinigol).

Fodd bynnag, fel yn 2013, roedd rhai cyfranogwyr yn pryderu o hyd am gapasiti gofal critigol yn gyffredinol ac yn cyfeirio at enghreifftiau lle y methwyd ag atgyfeirio cleifion. Serch hynny, roeddent yn aml yn teimlo, er gwaethaf newidiadau mewn deddfwriaeth, y byddai diffyg gwelyau gofal critigol yng Nghymru bob amser.

Roedd y cyfranogwyr yn disgwyl dechrau cael canllawiau manylach ar y ddeddfwriaeth newydd yn y dyfodol agos (yn enwedig ar gynnal sgysiau gyda theuluoedd). Roedd y cyfnod presennol (ddechrau gwanwyn 2015) yn teimlo fwy neu lai fel yr adeg briodol i hyn ddigwydd.

Roeddent hefyd am gael canllawiau ar fanylion y ddeddfwriaeth a fyddai'n effeithio ar eu rolau arferol (e.e. sut i ddefnyddio'r gofrestr rhoddwyr organau, cadarnhad o elfennau o'r meini prawf preswyliaeth a

senarios trawsffiniol posibl). Roedd yn amlwg nad oedd nyrsys arbenigol/arweinwyr clinigol bob amser yn gwbl ymwybodol o gynnwys y Ddeddf o ran y pynciau hyn.

Canfu gwaith ymchwil 2013 rywfaint o ymwybyddiaeth gyfyngedig o'r ffordd y câi preswyliaeth ei diffinio. Yn 2015, roedd cyfranogwyr yn fwy tebygol o ddeall ystyr preswyllydd arferol ar gyfer y Ddeddf, a dim ond nifer fach o eithriadau oedd i hyn. Nid oedd yr ansicrwydd a leisiwyd yn y gwaith ymchwil blaenorol o ran gwaith trawsffiniol a phreswyliaeth mor amlwg yn yr astudiaeth hon.

O ran amseru a chynllunio ar gyfer hyfforddiant / canllawiau, nid oedd y cyfranogwyr yn sicr beth yn union yr oedd disgwyl iddo ddigwydd rhwng nawr a 1 Rhagfyr 2015. Byddent yn croesawu mwy o fanylion am yr amserlen hon.

Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ganfyddedig o'r system newydd ymhlith aelodau eraill o staff a'r cyhoedd

Roedd nyrsys arbenigol ac arweinwyr clinigol o'r farn bod cryn dipyn i'w wneud o hyd i godi ymwybyddiaeth o'r ddeddfwriaeth ymhlith staff ysbytai. Nid oedd y farn hon wedi newid yn sylweddol ers y safbwyntiau a fynegwyd yn 2013 yn hyn o beth.

Roedd canfyddiad ymhlith nyrsys arbenigol ac arweinwyr clinigol bod aelodau eraill o staff ysbytai yn aml yn ansicr ynghylch pryd y câi'r ddeddfwriaeth ei gweithredu, ac nid oeddent yn deall yn llawn sut y byddai'r system feddal o optio allan yn gweithio'n ymarferol (er enghraifft, rôl y teulu). Cynhwyswyd rhai aelodau o staff gofal critigol a'r adran achosion brys yn y grŵp hwn.

Felly roedd y cyfranogwyr o'r farn y dylid blaenoriaethu staff gofal critigol ac adrannau achosion brys - gan gynnwys uwch aelodau o staff a staff iau - ar gyfer addysg a hyfforddiant, o ystyried y gallent chwarae rhan bwysig yn y broses rhoi organau ac o ran cyswllt â theuluoedd.

Fodd bynnag, gallai cyrraedd yr aelodau hyn o staff i'w haddysgu a rhoi arweiniad iddynt fod yn her oherwydd pwysau gwaith y staff.

Roedd rhai cyfranogwyr ymhlith y nyrsys arbenigol a'r arweinwyr clinigol wedi nodi sut roedd teuluoedd yn fwy tebygol o fod wedi trafod rhoi organau gyda'r claf nag yn y gorffennol, neu o leiaf eu bod yn disgwyl cael y sgwrs gyda staff yr ysbyty. Roedd y datblygiad hwn yn gwneud y sefyllfa yn haws i nyrsys arbenigol ac arweinwyr clinigol ymdrin â hi. (Nid yw ffigurau olrhain gwaith ymchwil meintiol Llywodraeth Cymru

o ran p'un a yw unigolion yn trafod rhoi organau gyda'u teuluoedd ai peidio yn adlewyrchu'r canfyddiad ansoddol hwn.)

Nid oedd y cyfranogwyr o'r farn bod y cyhoedd yn gyfarwydd â'r ddeddfwriaeth o ran ei chynnwys, ei dyddiad gweithredu, a rôl y teulu.

O ganlyniad, roedd rhai yn amau effeithiolrwydd ac amlygrwydd yr ymgyrch gyfathrebu bresennol ar gyfer y system newydd. Cafwyd cais hefyd i'r ymgyrch gyfathrebu ddatgan yn gadarnach fod y ddeddfwriaeth yn rhoi mwy o ddewis i bobl. (Bydd cam nesaf ymgyrch gyfathrebu Llywodraeth Cymru, sy'n dechrau ym mis Mehefin 2015, yn egluro'r dewisiadau a fydd gan bobl o dan gyfraith newydd.)

Ffactorau allweddol er mwyn sicrhau y caiff y system newydd ei rhoi ar waith yn llwyddiannus

Ym marn y cyfranogwyr, y ffactor pwysicaf a fyddai'n sicrhau y câi'r system newydd ei rhoi ar waith yn llwyddiannus oedd darparu addysg effeithiol i'r cyhoedd. Fel yn 2013, pwysleisiodd nyrsys arbenigol ac arweinwyr clinigol y pwynt hwn uwchlaw pob pwynt arall.

Nododd cyfranogwyr yn rheolaidd hefyd y byddai'n allweddol pwysleisio i'r cyhoedd y

byddai'r ddeddfwriaeth newydd yn cynnig mwy o ddewisiadau iddynt o ran rhoi organau.

Ychwanegodd arweinwyr clinigol weithiau y dylid cynnwys rhoi organau fel rhan o'r cwricwlwm ysgolion er mwyn helpu i feithrin dealltwriaeth a sicrhau bod trafodaethau teuluol ar y pwnc yn rhan o'r drefn arferol.

Yn ôl y cyfranogwyr, byddai llwyddiant hefyd yn dibynnu ar sicrhau bod nyrsys arbenigol yn benodol wedi cael yr holl ganllawiau priodol ac wedi cael hyfforddiant llawn ar feysydd megis dechrau'r sgwrs ar ganiatâd tybiedig, gan ddefnyddio'r gofrestr rhoddwyr organau a phreswyliaeth mewn rhai senarios trawsffiniol penodol. Roedd nyrsys arbenigol ac arweinwyr clinigol o'r farn bod y broses o gyflawni'r gofyniad hwn ar y trywydd cywir.

Yn ogystal, ailbwysleisiodd rhai y byddai ymdrechion parhaus i wella cydberthnasau â chlinigwyr o fudd i'r ddeddfwriaeth newydd.

Casgliadau ac ystyriaethau

Canfu'r ail don hon o waith ymchwil ymhlith nyrsys arbenigol ac arweinwyr clinigol, gydag ychydig yn llai na blwyddyn cyn i'r ddeddfwriaeth ddod i rym, fod y ddau grŵp yn gymharol fodlon â'r paratodau

presennol ar gyfer symud i system feddal o optio allan.

Nid yw'r cyfnod cyn gweithredu yn effeithio ar arferion gwaith presennol ac eithrio'r ffaith bod rhai nyrsys arbenigol ac arweinwyr clinigol wedi dechrau addysgu aelodau eraill o staff ysbytai am y ddeddfwriaeth. Yn ogystal, nid yw'r cyfranogwyr yn disgwyl unrhyw newidiadau sylweddol i'w harferion gwaith yn dilyn y dyddiad gweithredu ym mis Rhagfyr. Pwynt diddorol a ddeilliodd o'r gwaith ymchwil hwn oedd yr amheuaeth a leisiwyd yn aml na fyddai'r newid yn gwneud llawer o wahaniaeth i nifer y rhoddwyr yng Nghymru.

Er bod nyrsys arbenigol ac arweinwyr clinigol yn dueddol o fod yn hyderus y byddent yn cael yr hyfforddiant a'r canllawiau angenrheidiol cyn mis Rhagfyr, ceir angen amlwg am wybodaeth am yr amserlen ar gyfer amcanion hyfforddi o ran amseru a chynnwys. Byddai'r wybodaeth hon hefyd yn helpu i roi tawelwch meddwl i'r rheini a oedd yn dechrau ystyried sut y byddent yn llwyddo i gyrraedd yr aelodau perthnasol o staff yn ystod y misoedd sy'n weddill cyn i'r system newid.

Un o'r meysydd allweddol lle roedd cyfranogwyr yn disgwyl cael canllawiau maes o law oedd sut y byddai'r sgysiau

gyda theuluoedd yn newid. Mae'r ffordd yr oedd y cyfranogwyr yn trafod hyfforddiant a chanllawiau (er enghraifft, gan nodi nad oeddent wedi cael unrhyw wybodaeth) yn awgrymu y gallant fabwysiadu dull gweithredu mwy ymatebol yn hytrach na rhagweithiol er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o fanylion ymarferol y system newydd. Mae hyn yn awgrymu y byddai dull hyfforddi wyneb yn wyneb lle y bo'n bosibl yn ffordd effeithiol o annog nyrsys arbenigol i brosesu'r wybodaeth yn briodol.

Mae darparu canllawiau arfer da o ran pryd a sut i hyfforddi aelodau eraill o staff yn debygol o fod o fudd i gyfranogwyr.

Un gwahaniaeth o gymharu â gwaith ymchwil 2013 oedd bod rhai cyfranogwyr o'r farn eu bod yn dod ar draws mwy o enghreifftiau o deuluoedd cleifion a oedd yn ymwybodol o ddymuniadau'r claf, neu o leiaf deuluoedd a oedd yn disgwyl trafodaeth am roi organau gyda staff yr ysbyty. Mae'r adborth ansoddol hwn ar fod yn ymwybodol o ddymuniadau cleifion yn groes i ddata tuedd Llywodraeth Cymru. Dengys y data fod y gyfran o bobl sy'n ateb 'do' i'r datganiad 'A ydych erioed wedi trafod eich dymuniadau o ran rhoi organau ar ôl eich marwolaeth gydag aelod o'r teulu?' wedi parhau'n gyson ar lefel o tua phedwar allan o bob deg ers 2012. Fodd bynnag, gall fod yn werth cofnodi'r enghreifftiau hyn

yn fwy ffurfiol o hyd (os na wneir hynny eisoes) er mwyn bwydo i asesiad cynnydd cyffredinol Llywodraeth Cymru ar y pwnc hwn. Mae'r adborth ansoddol ar enghreifftiau lle mae mwy o deuluoedd yn disgwyl trafodaeth yn fwy cydnaws â data tuedd Llywodraeth Cymru ar ymwybyddiaeth gynyddol o'r gyfraith newydd.

Mewn datblygiad ers gwaith ymchwil 2013, ceir ymdeimlad ymhlith cyfranogwyr fod effaith ymdrechion i wella cydberthnasau â chlinigwyr a'u hannog i fabwysiadu arfer gorau yn dechrau sefydlogi. Mae'r canfyddiad hwn yn awgrymu y bydd angen cymorth parhaus ar nyrsys arbenigol ac arweinwyr clinigol i roi arfer gorau ar waith ar draws yr unedau sy'n ymwneud â rhoi organau. Ystyriwyd bod hyfforddiant cyfathrebu blaenorol ar y thema hon wedi bod yn effeithiol ac y gellid felly ei ailadrodd neu ei ddiweddarau er mwyn sicrhau y cyrhaeddir aelodau newydd o staff ac y caiff unrhyw ddulliau gweithredu arfer gorau newydd ym maes cyfathrebu eu rhannu. Byddai gwelliant yn y maes hwn yn sicr o fudd wrth roi'r system newydd ar waith yn llwyddiannus.

Gan edrych ymlaen at waith ymchwil 2016 gyda nyrsys arbenigol ac arweinwyr clinigol pan fydd y system feddal o optio allan wedi'i gweithredu'n llawn, dylid ystyried

trafod y meysydd canlynol gyda'r cyfranogwyr:

- Effeithiolrwydd ac amseroldeb canfyddedig yr hyfforddiant a'r canllawiau a gafwyd yn ystod y cyfnod cyn y dyddiad gweithredu. Mae'r pynciau i'w hadolygu yn cynnwys sgyrsiau gyda theuluoedd, ac i ba raddau y llwyddwyd i egluro preswyliaeth a senarios trawsffiniol;
- Profiadau gyda theuluoedd cleifion, gan gynnwys yn ystod y misoedd cyn newid i'r ddeddfwriaeth newydd ac ar ôl 1 Rhagfyr 2015;
- Bylchau o ran dealltwriaeth a allai fod wedi dod i'r amlwg, ac a oedd wedi effeithio ar arferion gwaith;
- Meysydd lle roedd nyrsys arbenigol ac arweinwyr clinigol o'r farn bod angen hyfforddiant a chanllawiau arnynt o hyd;
- I ba raddau roedd gwersi newydd o ran arfer gorau mewn perthynas â'r system feddal o optio allan yn cael eu nodi a'u rhannu;
- I ba raddau yr ystyriwyd bod y ddeddfwriaeth newydd yn effeithio ar aelodau eraill o staff ysbytai, a beth y gellid ei wneud i wella unrhyw broblemau a nodwyd;
- Pa mor hawdd ydoedd i addysgu aelodau eraill o staff, yn arbennig ym maes gofal critigol ac adrannau achosion brys, a pha adnoddau ychwanegol y gallai fod eu hangen ar nyrsys arbenigol ac arweinwyr clinigol o hyd;
- P'un a oedd cydberthnasau gyda chlinigwyr yn parhau i wella ai peidio;
- Newidiadau canfyddedig ymhlith y cyhoedd o ran ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r system newydd, gan ganolbwyntio'r drafodaeth ar ryngweithio gyda theuluoedd cleifion yn ogystal ag unrhyw rolau addysgu ehangach y gallai'r cyfranogwyr fod wedi bod yn gysylltiedig â hwy;
- Cael gwybod safbwyntiau a phrofiadau nyrsys arbenigol sydd wedi'u lleoli yn Lloegr ond y gallai fod wedi bod angen iddynt deithio i Gymru i helpu nyrsys arbenigol yng Nghymru;
- Pa faterion neu bryderon nas rhagwelwyd, os o gwbl, a oedd wedi dod i'r amlwg o ran y newid mewn deddfwriaeth y byddai angen ymdrin â hwy.

Beaufort Research

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Ian Jones

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Tel: 029 2082 3411

Email: ian.jones2@wales.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru

30 Mehefin 2015

ISBN: 978 1 4734 3727 2

© Hawlfraint y Goron 2015

The logo consists of the letters 'OGI' in a bold, black, sans-serif font. The 'O' and 'G' are connected, and the 'I' is separate.

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan y

Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni

nodir yn wahanol.

<http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/>